

Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Practis Gentle Dental, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror 2023

Dyddiad cyhoeddi: 31 Mai 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	9
	• Ansawdd Profiad y Claf	9
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	19
4.	Y camau nesaf	21
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	22
	Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith	23
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	24

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Gentle Dental, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ar 28 Chwefror 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC ac Adolygydd Cymheiriaid Deintyddol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod Practis Gentle Dental yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Gwelsom gleifion yn cael eu cyfarch gan staff cyfeillgar a chwrtais, a oedd yn ymdrechu i ddiwallu eu hanghenion unigol. Nodwyd gennym fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Roedd yr amgylchedd yn groesawgar a'r ardaloedd cymunedol yn lân ac yn daclus. Roedd gwybodaeth ar gael i'r cleifion mewn ieithoedd gwahanol, gan gynnwys y Gymraeg a'r Saesneg. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y lleoliad yn 'dda iawn' neu'n 'dda.'

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd gan y practis drefniadau ar waith i ddiogelu preifatrwydd cleifion, ynghyd â phrosesau i sicrhau y gellir cynnal trafodaethau cyfrinachol
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn ffordd ofalgar a chyfeillgar mewn deintyddfeydd a oedd yn gwarchod eu hurddas
- Roedd mynediad da i'r practis i bobl anabl
- Lle'r oedd y practis wedi defnyddio'r adborth a gafwyd gan gleifion i wneud newidiadau yn y practis, roedd hyn wedi'i ddangos ar boster gwybodaeth "dywedoch chi, gwnaethom ni".

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb Cyffredinol:

Gwelsom fod yr adeilad mewn cyflwr da ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda thystiolaeth o welliannau diweddar, megis lloriau newydd ar y grisiau ac ardaloedd y cyntedd. Roedd y practis yn cael ei gadw'n lân ac yn daclus ac yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amgylcheddol ac asesiadau risg diogelwch tân cyfredol. Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn unman.

Roedd trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod y cyfarpar pelydr-X yn cael ei ddefnyddio mewn modd priodol a diogel. Dangosodd dogfennaeth a roddwyd i ni yn ystod ein hymweliad fod y cyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, a'i fod yn cael ei wasanaethu'n rheolaidd.

Roedd gweithdrefnau dihalogi priodol ar waith yn y practis ac roedd yr holl gyfarpar mewn cyflwr da.

Gwelsom fod y polisiau a'r gweithdrefnau diogelu yn gadarn, a bod llwybr clir i'w ddilyn. Roedd manylion cyswllt ar gyfer yr arweinydd diogelu a'r timau diogelu lleol yn weladwy, ac roedd cymorth ar gael gan dîm rheoli effeithiol pe bai angen.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod masgiau o feintiau gwahanol ar gael gyda'r cyfarpar meddygol brys
- Sicrhau bod y cofnodion deintyddol yn gyfredol, yn gywir ac yn gyflawn ar gyfer pob claf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y deintyddfeydd yn lân iawn, yn cynnwys cyfarpar a oedd yn addas at y diben ac mewn cyflwr da.
- Mae'r practis yn meddu ar statws "Arian" o dan y 'Fframwaith a Chynllun Gwobrwy Gofal Sylfaenol Gwyrddach'
- Roedd amrywiaeth o archwiliadau cynhwysfawr yn cael eu cwblhau, a gwelwyd tystiolaeth o newidiadau a oedd wedi cael eu gwneud o ganlyniad i'r archwiliadau hyn.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod arweinyddiaeth dda iawn a llinellau atebolrwydd clir ym Mhractis Gentle Dental. Roedd y staff yn cydweithio'n dda iawn gyda'i gilydd ac yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion. Roedd cyfleoedd hyfforddiant priodol ar gael i'r staff er mwyn iddynt gyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol ac roeddent yn cael eu hannog a'u cefnogi i ymgymryd â hyfforddiant perthnasol pellach i ddatblygu eu gyrfaedd.

Roedd tystiolaeth bod proses recriwtio a sefydlu glir ar waith, a gaiff ei dilyn gan sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rydym yn argymhell y dylai aelodau newydd o'r staff gwblhau modiwlau e-ddysgu ar ddiogelwch tân nes y byddant yn ymgymryd â hyfforddiant wyneb yn wyneb ym mis Mai 2023.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn cynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Roedd rhaglen sefydlu gynhwysfawr ac arfarniadau rheolaidd ar waith, gyda chyfleoedd priodol i ddysgu a chael hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd ymarfer
- Roedd trefniadau arweinyddiaeth a gwaith tîm clir ar waith. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, gyda phresenoldeb da ynddynt, ac roedd cofnodion yn cael eu cymryd yn nodi'r camau gweithredu perthnasol
- Roedd y staff yn meddu ar ddealltwriaeth ragorol o'r rheoliadau deintyddiaeth breifat.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Cawsom gyfanswm o 17 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd llawer o'r holiaduron a gyflwynwyd wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod yn defnyddio gwasanaethau'r practis ers mwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd gan y cleifion yn yr holiaduron yn cynnwys y canlynol:

“Yn barod i helpu, yn broffesiynol ac yn gyfeillgar iawn.”

“Tîm ffantastig.”

“Mae'r gwasanaeth a'r gofal wedi bod yn rhagorol bob amser.”

“Y gorau i mi ei gael.”

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiadur sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd rhai o'r sylwadau a gafwyd yn cynnwys y canlynol:

“Gallu trefnu apwyntiadau mewn ffyrdd eraill, nid dros y ffôn yn unig.”

“Mae'r practis yn wych fel ag y mae.”

“Mae eisoes yn bractis da iawn.”

Mae'r ymatebion a'r sylwadau yn awgrymu bod y cleifion yn cael profiad cadarnhaol yn y lleoliad hwn, ym mhob maes.

Cadw'n Iach

Diogelu a Gwella Iechyd

Gwelsom dystiolaeth o newidiadau a wnaed i'r amgylchedd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Roedd uned hyllendid dwylo wedi'i gosod wrth ymyl desg y dderbynfa ac roedd arwyddion mewn mannau amlwg yn annog y cleifion i wisgo gorchuddion

wyneb o hyd. Roedd sgriniau amddiffynnol wedi cael eu gosod o amgylch desg y dderbynfa hefyd, a wal ar ffurf sgrin yn rhannu'r dderbynfa a'r ardal aros.

Dywedodd yr 17 o gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi sôn wrthynt sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Nododd pob un o'r cleifion hefyd fod y tîm deintyddol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Roedd enw'r practis i'w weld yn glir uwchben prif fynedfa'r practis. Roedd manylion oriau agor y practis a'r rhif ar gyfer y gwasanaeth y tu allan i oriau mewn argyfwng wedi'u harddangos yn glir ar y drws ffrynt.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Gofal ag urddas

Cyfathrebu'n effeithiol

Roedd yn amlwg bod y practis yn ymrwymedig i gynnal preifatrwydd y cleifion. Gwelsom y staff yn rhoi gofal i'r cleifion mewn ffordd urddasol a pharchus a gwelwyd bod y staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn ffordd gyfeillgar ac yn barod i'w helpu. Roedd trefniadau ar waith yn y practis i ddiogelu preifatrwydd y cleifion a dywedodd rheolwr y practis wrthym hefyd, pe byddai claf yn awyddus i siarad ag aelod o staff yn breifat, y byddai'r aelod o staff naill ai'n mynd ag ef i ystafell glinig wag neu'n mynd i swyddfa rheolwr y practis.

Roedd drysau'r deintyddfeydd yn cael eu cadw ar gau yn ystod apwyntiadau er mwyn cynnal urddas y cleifion. Roedd drws hefyd rhwng yr ardal aros a desg y dderbynfa, felly roedd modd cynnal sgysiau cyfrinachol rhwng y staff a'r cleifion.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo bod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion hefyd fod y tîm deintyddol bob amser yn esbonio'r opsiynau o ran triniaeth iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall, a'u bod yn cael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu gofal a hynny ar sail dewis gwybodus.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod dau aelod o staff y practis wrthi'n dysgu Cymraeg.

Roedd y daflen wybodaeth i gleifion, y datganiad o ddiben a'r ffurflenni cofrestru oll ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Gwelsom hefyd arwydd yn ardal y dderbynfa a oedd yn dangos sawl iaith ochr yn ochr â'r cyfieithiad Saesneg, er mwyn i'r cleifion allu rhoi gwybod eu dewis iaith i'r staff.

Gwybodaeth i gleifion

Roedd gwybodaeth gyffredinol am y practis ar gael ar ei wefan a gwelsom fod gwybodaeth i gleifion wedi'i harddangos yn y dderbynfa a'r ardaloedd aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am weithdrefn gwyno'r practis a gweithdrefn gwyno'r bwrdd iechyd, sef 'Gweithio i Wella'.

Gwelsom fod y practis wedi arddangos fersiynau Cymraeg a Saesneg o dystysgrifau cofrestru AGIC a bod "Safonau'r Tîm Deintyddol" gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol hefyd yn cael eu harddangos ar bob llawr.

Roedd rhestr prisiau i'w gweld yn glir yn ardal y dderbynfa, ac roedd rhestr o aelodau'r tîm deintyddol, ynghyd â ffotograffau er mwyn gallu adnabod pob aelod, i'w gweld yn yr ardal aros ar y llawr gwaelod.

Cawsom gopïau o'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion diweddaraf. Nodwyd gennym fod y ddwy ddogfen yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwelsom fod gwaith cynllunio ac opsiynau o ran triniaethau yn cael eu cofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gofal amserol

Mynediad amserol

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y staff yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei roi mewn modd amserol, a gwelsom hyn yn ystod yr arolygiad. Dywedwyd wrthym mai anaml iawn yr oedd oedi yn y practis, ond pe byddai oedi, y bydd y staff yn sicrhau bod y cleifion yn cael eu hysbysu ac yn cynnig cyfle hefyd iddynt aildrefnu eu hapwyntiad.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn defnyddio system trefnu apwyntiadau ar-lein. Fodd bynnag, roedd yn bosibl trefnu apwyntiadau dros y ffôn. Gwelsom gleifion hefyd yn trefnu apwyntiadau wyneb yn wyneb â staff y dderbynfa.

Dangosodd yr ymatebion i'r holiadur fod pob un o'r 17 o gleifion wedi nodi ei bod yn 'hawdd iawn' neu'n 'eithaf hawdd' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Gwnaeth un ymatebydd yr awgrym canlynol er mwyn gwella'r gwasanaeth:

"Gallu trefnu apwyntiadau mewn ffyrdd eraill, nid dros y ffôn yn unig."

Dywedodd 13 allan o'r 17 o gleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn gwybod sut i gael gafael ar y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe bai ganddynt broblem ddeintyddol frys, ond dywedodd pedwar o'r cleifion nad oeddent yn gwybod. Gwelsom fod gwybodaeth y tu allan i oriau ar gael i'r cleifion mewn amrywiaeth o leoedd, gan gynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar gofnodion 10 claf a gwelsom dystiolaeth ddogfennol o waith cynllunio triniaethau ac opsiynau priodol. At hynny, roedd y sampl a welsom yn cynnwys tystiolaeth fod pob claf yn rhoi cydsyniad i gael triniaeth. Roedd hyn yn golygu bod y cleifion yn cael gwybodaeth a oedd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus am eu triniaeth.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys mewn penderfyniadau am eu triniaeth a bod y tîm clinigol yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

Roedd y triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis yn cyd-fynd â'i ddatganiad o ddiben.

Hawliau pobl

Gwnaethom edrych ar y polisiau yn y practis a nodwyd gennym fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth a pholisi cyfle cyfartal cynhwysfawr ar waith a oedd yn cyfeirio at Ddeddf Cydraddoldeb 2010, dyddiedig Chwefror 2023.

Gwelsom fod y polisiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ac yn cael eu hadolygu gan aelodau o'r staff bob blwyddyn. Roedd dyddiadau adolygu ar y dogfennau, ynghyd â llofnodion gan y staff i ddangos eu bod wedi darllen y polisiau.

Dywedodd y staff deintyddol wrthym fod blwch gwybodaeth ychwanegol ar system nodiadau'r cleifion er mwyn sicrhau bod cleifion sydd ag unrhyw anghenion ychwanegol, nodweddion gwarchodedig, neu ddewisiadau rhagenw/rhywedd yn cael eu cefnogi'n briodol.

Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur eu bod wedi gallu cael gafael ar y gofal iechyd cywir ar yr adeg gywir (ni waeth beth fo'u hoedran, anabledd, statws ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) ac nid oedd unrhyw gleifion wedi profi gwahaniaethu wrth gysylltu â'r practis neu wrth ei ddefnyddio.

Roedd mynediad da i'r practis ar gyfer pobl anabl. Roedd pobl sy'n defnyddio cadair olwyn yn gallu cael mynediad i'r dderbynfa, yr ardal aros fawr, y cyfleusterau clinigol a thoiled ar gyfer pobl anabl ar y llawr gwaelod. Cafodd y mynediad hwn ei werthuso a'i gofnodi o dan "adolygiad mynediad" i bobl anabl a gafodd ei gynnal gan un o gleifion y practis yn 2017 i asesu'r lefelau hygyrchedd. Roedd system dolen sain hefyd ar gael yn y practis pe byddai ei hangen ar unrhyw glaf.

Gwranddo a dysgu o adborth

Roedd y broses gwyno wedi'i harddangos yn glir yn yr ardal aros. Roedd y wybodaeth am gwyno yn cynnwys y broses y mae angen ei dilyn, y terfynau amser ar gyfer ymateb, a manylion yr aelod o staff sy'n gyfrifol am ymdrin â chwynion. Roedd y daflen wybodaeth i gleifion yn cynnwys manylion am sut y gellir rhoi adborth i'r practis.

Trafodwyd sut mae'r practis yn mynd ati i geisio adborth cleifion, a oedd yn cael ei wneud drwy roi holiaduron i'r cleifion (cyn COVID-19) a thrwy flwch sylwadau / awgrymiadau sydd ar gael yn ardal y dderbynfa. Ar ôl COVID-19, gwnaeth y practis gynnal ymarfer lle roedd yn cysylltu â chleifion dros y ffôn i geisio adborth. Wedyn, roedd y rheolwr cofrestredig yn dadansoddi'r adborth ac yn ei drafod â'r tîm deintyddol.

Lle gwnaed gwelliannau o ganlyniad i'r adborth, roedd y gwelliannau hynny wedi'u harddangos yn yr ardaloedd aros ar bosteri "dywedoch chi, gwnaethom ni", a oedd yn cynnwys manylion am y gwelliannau/y gwersi a ddysgwyd. Enghraifft o hyn yw'r cadeiriau "uchel" ychwanegol a geir yn yr ystafelloedd aros, i'r unigolion hynny sy'n ei chael hi'n anodd eistedd ar gadeiriau isel.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Roedd y practis mewn cyflwr da yn ôl yr olwg, y tu mewn a'r tu allan, a gwelsom fod pob rhan o'r practis yn lân ac yn daclus.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon am lendid y practis deintyddol. Nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur fod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd y practis yn cynnwys pump deintyddfa, dwy ar y llawr gwaelod a thair ar y llawr cyntaf. Roedd toiledau ar gael i'w defnyddio gan y staff a'r cleifion ar lawr gwaelod a llawr cyntaf y practis. Roedd arwyddion clir ar gyfer y ddau, ac roeddent yn ymddangos yn lân.

Roedd cyfarpar diogelwch tân ar gael mewn amrywiol leoliadau yn y practis, a gwelsom ei fod wedi cael ei wasanaethu'n ddiweddar. Roedd amrywiaeth o bolisiâu a gweithdrefnau ar waith yn y practis, yn ogystal ag amrywiaeth o asesiadau risg. Roedd hyn yn cynnwys asesiad risg diogelwch tân, asesiad risg amgylcheddol ac asesiad risg iechyd a diogelwch. Roedd pob un yn gyfredol ac yn cael ei adolygu o fewn terfynau amser priodol.

Nodwyd gennym fod y staff yn cael hyfforddiant tân gorfodol bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd sawl aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant hwn gan eu bod wedi dechrau gweithio yn y practis yn fuan ar ôl i'r hyfforddiant blynyddol gael ei gynnal yn 2022. Nid oedd y sesiwn hyfforddiant nesaf wedi'i threfnu tan fis Mai 2023, felly, yn y cyfamser, gwnaethom argymhell y dylai'r staff gwblhau modiwlau e-ddysgu os na ellir cynnal yr hyfforddiant ynghynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant diogelwch tân.

Roedd polisi dadebru ar waith ac roedd pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant dadebru cardio-anadlol (CPR)/hyfforddiant dadebru brys, heblaw am un deintydd, yr oedd ei hyfforddiant CPR wedi dod i ben. Gwnaethom roi gwybod i reolwr y practis bod yn rhaid i'r aelod hwn o staff adnewyddu ei hyfforddiant CPR.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant i gynnal CPR.

Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis gyfleusterau penodol ar gyfer dihalogi offer deintyddol yn unol ag argymhellion canllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05. Roedd y cyfleusterau yn lân, yn drefnus ac yn cynnwys adnoddau digonol. Roedd cofnodlyfrau yn cael eu defnyddio ar gyfer gwirio'r awtoclaf a'r baddon uwchsain ac roedd tystysgrifau cynnal a chadw cyfredol. Cafodd archwiliad diweddaraf Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM) 01-05 ei gwblhau ym mis Chwefror 2023 a chwblhawyd y camau gweithredu a argymhellwyd.

Roedd trefniadau priodol ar waith er mwyn sicrhau bod y broses o reoli heintiau ym mhob rhan o'r practis o safon uchel. Roedd amserlenni glanhau ar waith ac, yn ôl yr olwg, roeddent yn cael eu dilyn yn fanwl.

Gwelsom fod sawl polisi ar waith mewn perthynas â'r gweithdrefnau atal a rheoli heintiau yn y practis, ac roeddent yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Roedd gan y practis drefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff hefyd. Gwelsom dystiolaeth fod gwastraff clinigol yn cael ei storio a'i wahanu oddi wrth wastraff nad yw'n beryglus mewn ffordd ddiogel a phriodol. Roedd contract ar waith â glanhawr domestig allanol er mwyn gwaredu gwastraff domestig. Gwnaethom hefyd nodi fod trefniadau digonol ar waith ar gyfer ymdrin â sylweddau a oedd yn destun Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) yn unol â pholisi COSHH y practis.

Roedd trefniadau priodol ar waith yn y practis i ymdrin ag anafiadau wedi'u hachosi gan offer miniog, a gwelsom gofnodion cyflawn mewn perthynas â statws imiwneiddio Hepatitis B pob aelod o'r staff clinigol. Roedd hyn yn golygu bod camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu diogelu rhag feirysau a gludir yn y gwaed. Gwelsom hefyd dystysgrifau cyfredol a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol ar atal a rheoli heintiau.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom dystiolaeth fod polisi rheoli meddyginiaethau cynhwysfawr ar waith yn y practis. Roedd sawl gweithdrefn ar waith hefyd a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion, sut i ymdrin â meddyginiaethau mewn ffordd ddiogel ac effeithiol, a sut i gofnodi meddyginiaethau. Dywedwyd wrthym nad oedd y practis yn storio meddyginiaethau heblaw'r rhai hynny sydd eu hangen fel meddyginiaethau brys. Yn lle hynny, rhoddir presgripsiwn i'r cleifion er mwyn iddynt gael eu meddyginiaeth o fferylfa leol.

Roedd padiau presgripsiynau yn cael eu storio'n briodol.

Gwelsom fod y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac mewn man hygyrch y gall y staff fynd ato'n hawdd pe bai argyfwng meddygol. Roedd systemau ar waith i archwilio'r cyffuriau brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio, yn unol â'r safonau a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Wrth edrych ar y cyfarpar brys, gwelsom fod llwybrau anadlu meintiau 1 - 4 ar gael, ond nad oedd llwybrau anadlu maint 0 ar gael. Roedd yr unig fasg a oedd ar gael ar gyfer y bag Ambu yn edrych yn hen ac yn fflat, ac roedd y dyddiad darfod arno bron â mynd heibio. Oherwydd yr effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryder hwn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad. Aeth rheolwr y practis ati ar unwaith i archebu masgiau maint 0-4 gan sicrhau y byddent yn cyrraedd y bore canlynol, a chafwyd cadarnhad eu bod wedi cyrraedd gan y practis.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyfarpar brys ar gael yn unol â'r gofynion sylfaenol a bennwyd gan Gyngor Dadebru'r DU.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Roedd ffolder wybodaeth gynhwysfawr ar ddiogelu ar gael yn y practis, a oedd yn cynnwys polisiau a gweithdrefnau i hybu ac amddiffyn llesiant a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Gwelsom bolisi diogelu cyfredol, dogfennau ategol amrywiol eraill a siart llif glir i'r staff eu dilyn pe byddent yn amau unrhyw achosion o gam-drin neu esgeuluso. Roedd y dogfennau hyn hefyd yn cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

Y rheolwr cofrestredig oedd arweinydd diogelu enwebedig y practis, ac roedd hyn wedi'i nodi ym mholisi diogelu'r practis ac wedi'i gynnwys ar y siart llif diogelu. Roedd y siartiau llif hyn hefyd i'w gweld ym mhob clinig ac ar hysbysfyrdau ym mhob rhan o'r practis.

Esboniodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a gaiff eu cynnal ar gyfer aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys cadarnhau geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif hyfforddiant diogelu gyfredol a thystysgrif ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a oedd yn cadarnhau bod datgeliadau manylach llawn wedi'u cynnal ar gyfer y gweithlu sy'n trin oedolion a phlant. Cadarnhawyd gennym hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y cyfleusterau clinigol yn cynnwys yr holl gyfarpar priodol i sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Gwelsom hefyd fod y deintyddfeydd yn drefnus, yn lân ac yn daclus. Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau hyfforddiant y staff

fod pob unigolyn perthnasol wedi cael hyfforddiant i sicrhau ei fod yn defnyddio cyfarpar yn ddiogel.

Dangosodd ein harsylwadau o'r cyfarpar clinigol ei fod yn ddiogel ac mewn cyflwr da. Wrth i ni edrych ar gofnodion o ddigwyddiadau yn y practis, gwelsom gofnod a oedd yn nodi bod eitem o gyfarpar yn ddiffygiol, a bod nodwydd wedi datgysylltu o'r ddyfais. Cymerwyd yr holl gamau priodol i sicrhau diogelwch y cleifion. Rhoddwyd gwybod ar unwaith i'r gwneuthurwyr, cwblhawyd ymchwiliad priodol a chafodd y gwersi a ddysgwyd eu rhannu. Rhoddwyd y gorau i ddefnyddio'r eitem hon o gyfarpar yn y practis.

Gwelsom dystiolaeth fod rhestrau gwirio ar gyfer y broses sefydlu ar waith i aelodau newydd o staff er mwyn sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael yr hyfforddiant perthnasol i ddefnyddio'r cyfarpar. Dangosodd y staff sut y byddent yn mynd ati i lanhau a diheintio'r cyfarpar yn unol â'r canllawiau ar atal a rheoli heintiau rhwng pob claf.

Gwnaethom edrych ar y trefniadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod y cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel a gwelsom eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) (IR(ME)R) (2017). Roedd y ddogfennaeth a gawsom yn ystod ein hymweliad yn dangos bod trefniadau diogel ar waith yn y practis mewn perthynas â'r amgylchedd, gwaith cynnal a chadw a phrofi cyfarpar pelydr-X.

Gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff sy'n cynnal gweithdrefnau pelydr-X wedi cael hyfforddiant ardystiedig priodol.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom dystiolaeth fod trefniadau cadarn ar waith i dderbyn cleifion, eu hasesu, rhoi diagnosis iddynt a'u trin. Roedd y trefniadau hyn wedi'u dogfennu yn natganiad o ddiben, polisiau a gweithdrefnau a thaflen wybodaeth i gleifion y practis a oedd yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Roedd ystod o asesiadau ac archwiliadau wedi cael eu cwblhau, gan gynnwys hunanasesiad arfer da Cymdeithas Ddeintyddol Prydain, archwiliad iechyd a diogelwch, archwiliad cadw cofnodion, archwiliad 'methu apwyntiadau', archwiliad WHTM01- 05, archwiliad rhoi'r gorau i smygu ac archwiliad mynediad i bobl anabl, ac roedd pob cam gweithredu a nodwyd ym mhob archwiliad wedi'i roi ar waith.

Mae'r practis wrthi'n cynnal yr archwiliad rhagnodi gwrthfotigau, a fydd yn cael ei gwblhau ym mis Mawrth 2023.

Mae'r practis yn defnyddio'r Adnodd Hunanwerthuso ar gyfer Optimeiddio Sgiliau (SOSET), sy'n galluogi'r tîm cyfan i ganolbwyntio ar y ffordd y mae'n darparu gofal deintyddol o ansawdd uchel yn effeithiol gan ddefnyddio dull cymysgedd sgiliau/gwaith tîm.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd gwybodaeth am gleifion yn cael ei storio'n briodol, er mwyn sicrhau diogelwch data personol yn unol â'r Gofynion Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Roedd polisi diogelu data a pholisi cyfrinachedd staff ar waith yn y practis. Roedd yr holl gofnodion papur yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd copïau wrth gefn o ffeiliau electronig yn cael eu gwneud yn rheolaidd.

Cadw cofnodion

Gwnaethom adolygu sampl o gofnodion deg claf a gwelsom eu bod wedi'u cynnal i safon dda. Fodd bynnag, er bod yr holl gofnodion yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth berthnasol, gwnaethom nodi rhai meysydd y mae angen eu gwella.

Gwnaethom nodi nad oedd cyngor ar roi'r gorau i smygu wedi cael ei roi/ei gofnodi ar gyfer pob claf.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod cyngor ar roi'r gorau i smygu yn cael ei roi i bob claf perthnasol.

Gwelsom hefyd nad oedd trefniadau sgrinio canser y geg na dewis iaith y cleifion bob amser yn cael eu cofnodi ar gyfer pob claf. **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod trefniadau sgrinio canser y geg a dewis iaith y cleifion yn cael eu cofnodi bob amser yng nghofnodion clinigol y cleifion yn y dyfodol.**

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig hefyd sicrhau y caiff gwrthfotigau eu rhagnodi'n unol â'r canllawiau cyfredol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

Gwelsom fod Gentle Dental yn bractis deintyddol cyfeillgar a oedd yn cael ei redeg gan deulu. Gwelsom dystiolaeth o arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir ar waith yn y practis. Roedd y gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus gan reolwr y practis, wedi'i gefnogi gan y rheolwr cofrestredig a'r prif ddeintydd. Gwelsom fod y ddau yn ymrwymedig ac yn ymroddedig iawn i'w rolau.

Gwelsom y tîm yn cydweithio'n dda. Gwelsom fod systemau cyfathrebu effeithiol ar waith a bod y staff yn parchu ei gilydd. Roedd y rheolwr cofrestredig a rheolwr y practis yn arwain y tîm yn fedrus. Roedd y practis, yn ôl yr olwg, yn effeithlon ac yn cael ei redeg yn dda, gan ganolbwyntio ar roi profiad cadarnhaol i'r cleifion.

Gwelsom fod y staff yn glir iawn ac yn wybodus am eu rolau a'u cyfrifoldebau. Roedd yn ymddangos fod cydberthynas dda rhwng aelodau'r staff. Roedd pob aelod o'r staff yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion ac roedd hyn yn cael ei ategu gan ystod o bolisiau a gweithdrefnau.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw broblemau neu bryderon yn uniongyrchol â'r tîm rheoli a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau. At hynny, roedd gan y practis bolisi chwythu'r chwiban ar waith a gwelsom dystiolaeth fod pob aelod o'r staff wedi'i ddarllen.

Y rheolwr cofrestredig oedd yn bennaf cyfrifol am gyflwyno hysbysiadau i AGIC mewn perthynas â digwyddiadau fel y nodir gan y rheoliadau. Pan gafodd ei holi, roedd yn ymwybodol o'r gofynion hyn a chawsom sicrwydd y byddai'n rhoi gwybod am ddigwyddiadau mewn ffordd brydlon ac amserol.

Cawsom dystiolaeth fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn rheolaidd yn y practis. Roedd cofnodion yn cael eu cadw ac ar gael i bob aelod o'r staff fel y gallent gyfeirio atynt.

Y Gweithlu

Gwnaethom siarad â rheolwr y practis er mwyn trafod y broses ar gyfer recriwtio staff newydd. Gwelsom bolisiau a oedd yn amlinellu'r broses a ddefnyddir i recriwtio ac i gefnogi'r broses o gyflogi a sefydlu staff. Gwelsom gynllun sefydlu cynhwysfawr a oedd yn cefnogi newydd-ddyfodiaid, a oedd yn cynnwys darllen polisiau'r practis a chwblhau'r holl hyfforddiant gorfodol. Roedd hyn hefyd yn galluogi'r practis i asesu eu cymhwysedd ac yn eu helpu i hyfforddi, dysgu a datblygu.

Gwelsom hefyd dystiolaeth i ddangos bod sesiynau goruchwyllo rheolaidd ac arfarniadau blynyddol yn cael eu cynnal. Trafododd rheolwr y practis hefyd sut y byddai'r practis yn ymdrin ag unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad ac yn ceisio eu datrys gan anelu at wella ymarfer.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pum deintydd ac un deintydd sylfaen yn darparu gwasanaethau yn y practis. Roedd dwy nyrs ddeintyddol a phedair nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant. Yn ogystal, roedd dau dderbynydd a rheolwr y practis.

Rhoddodd rheolwr y practis ffeiliau'r staff i ni fwrw golwg drostynt. Roedd yr holl ddogfennaeth ofynnol wedi'i chynnwys yn ffeiliau pob aelod o'r staff. Gwelsom dystiolaeth ochr yn ochr â'r Tystysgrifau DBS gwreiddiol fod y practis yn gofyn i aelodau'r staff yn ystod eu harfarniadau blynyddol a oes unrhyw beth wedi digwydd a fyddai'n newid statws eu tystysgrif DBS. Roedd dogfen wedi'i llofnodi i gadarnhau eu hymateb yn cael ei chadw fel rhan o'r cofnodion.

Gwelsom dystiolaeth hefyd fod pob aelod cymwysedig o'r staff wedi'i gofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC) ac yn darparu gofal a oedd o fewn ei gwmpas ymarfer ac yn unol â'r amodau cofrestru a nodwyd gan AGIC. Gwelsom hefyd fod pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau ac sy'n bodloni'r gofynion o ran Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP).

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Nid oedd llwybr anadlu maint 0 ar gael. Roedd yr unig fasg clir a oedd ar gael ar gyfer y bag Ambu yn ymddangos yn hen ac yn fflat, ac roedd y dyddiad darfod arno bron â mynd heibio. Nid oedd masgiau clir maint 0-4 ar gael ar gyfer y bag Ambu.	Methu â darparu cymorth anadlu effeithiol i gleifion y mae angen eu dadebru. Mae hyn yn peri risg ddifrifol o niwed.	Uwchgyfeiriwyd y mater at reolwr y practis	Aeth rheolwr y practis ati ar unwaith i archebu masgiau newydd meintiau 0-4 a llwybr anadlu maint 0 gan sicrhau y byddent yn cyrraedd y diwrnod canlynol. Darparwyd cadarnhad eu bod wedi cyrraedd.

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Practis Gentle Dental

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella uniongyrchol sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn ystod yr arolygiad hwn.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Practis Gentle Dental

Dyddiad yr arolygiad: 28 Chwefror 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol er mwyn ymgymryd â'u rolau. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r aelodau hynny o staff nad ydynt wedi cael hyfforddiant Diogelwch Tân a hyfforddiant CPR Brys.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a)	Trefnwyd yr hyfforddiant CPR blynyddol a gaiff ei gynnal yn y ddeintyddfa ar gyfer 24 Mai 2023, ac mae pob aelod o staff Gentle Dental wedi cael gwybod y dylai fynychu'r hyfforddiant hwn a'i gwblhau. Mae pob aelod o'r staff na wnaeth gwblhau'r hyfforddiant diogelwch tân blynyddol yn y ddeintyddfa wedi cael gwybod y dylai gwblhau'r hyfforddiant ar-lein gan y darparwr cyrsiau "Isopharm", ac y dylai gyflwyno'r tystysgrifau i Parul Sood.	Parul Sood, Prif Ddeintydd, Darparwr Cofrestredig Rahul Sood, Rheolwr y Practis	2 fis

		Yn y dyfodol, byddwn yn gwneud yn siŵr bod yn rhaid i bob aelod newydd o'r tîm sy'n ymuno â'r practis ar ôl i hyfforddiant blynyddol y practis gael ei gynnal, na fyddant felly wedi cwblhau'r hyfforddiant CPR/diogelwch tân blynyddol, gwblhau'r cyrsiau ar-lein hyn hyd nes y cynhelir y dyddiau hyfforddiant blynyddol nesaf yn y ddeintyddfa.		
Rhaid i'r Darparwr Cofrestredig sicrhau bod cofnodion deintyddol pob claf yn gyfoes, yn gywir ac yn gyflawn. Mae hyn yn ymwneud yn benodol â'r broses o gofnodi cyngor rhoi'r gorau i smygu, dewis iaith o ran y Gymraeg a'r risg o ganser y geg.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 20(1)(a)(i)(ii) Safonau lechyd a Gofal - Safon 3.5 Cadw Cofnodion	Mae'r deintydd dan sylw wedi cael gwybod y dylai gynnwys dewis iaith o ran y Gymraeg, cyngor ar roi'r gorau i smygu os yw'n ofynnol a'r risg o ganser y geg yn ei nodiadau. Trafodwyd pwysigrwydd nodiadau cyfoes, clir a chyflawn mewn cyfarfod â phob deintydd.	Parul Sood, Prif ddeintydd, Darparwr Cofrestredig.	Wedi'i gwblhau

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Parul Sood

Teitl swydd: Darparwr Cofrestredig, Prif Ddeintydd

Dyddiad: 10/04/2023